



Home Office

Cynllun Iaith Gymraeg y Swyddfa Gartref

Paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg
1993

Chwefror 2024



© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth f3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol. Mae'r cyhoeddiad ar gael ar www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad i Cymraeg@HomeOffice.gov.uk

Mae'r Swyddfa Gartref wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth weithredu ei busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut mae'r Swyddfa Gartref, gan gynnwys ei hasiantaethau a chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, yn bwriadu cyflawni'r ymrwymiad hwn wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Cafodd ei baratoi dan adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac yn unol â chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg. Daeth i rym ar 14 Ionawr 2002, a chafodd y fersiwn ddiwygiedig hon gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg ar 05/03/2024

Yn y cynllun hwn, mae'r term 'cyhoedd' yn golygu unigolion, swyddogion cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei gyfanrwydd, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag unigolion o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae'r term 'cyhoedd' hefyd yn berthnasol i gyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unigolion sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth na'r Wlad. Yn hyn o beth, nid yw'r term 'cyhoedd' yn berthnasol i unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau o natur cyhoeddus, er eu bod yn swyddogion cyfreithiol, wrth wneud eu gwaith.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Rhan 1: Cyflwyniad	6
Pwrpas	Error! Bookmark not defined.
Cyfrifoldebau	Error! Bookmark not defined.
Blaenoriaethau	Error! Bookmark not defined.
Pwy ydym ni	Error! Bookmark not defined.
Ymholiadau	Error! Bookmark not defined.
Rhan 2: Cynnwys y Cynllun	8
Rhan 3: Cynllunio a Chyflawni Gwasanaethau	9
Polisiau a Mentrau Newydd	9
Darpariaeth Gwasanaethau	10
Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi	10
Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi (HMPO)	11
Swyddfa Gofrestru Gyffredinol	11
Safon y Gwasanaeth	11
Dyfarnu Grantiau a Benthyciadau	12
Rhan 4: Delio â'r Cyhoedd Cymraeg eu Hiaith	13
Gohebiaeth	Error! Bookmark not defined.
Cyfathrebu dros y Ffôn	14
Ymdrin â Galwyr Personol	14
Cyfarfodydd, Ymchwiliadau neu Wrandawiadau Cyhoeddus	14
Ymdrin â'r Cyhoedd yng Nghymru fel arall	15
Rhan 5: Wyneb Cyhoeddus yr Adran	16
Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd, Arddangosfeydd a Hysbysebu	16
Hunaniaeth Gorfforaethol	16
Teitlau	Error! Bookmark not defined.
Arwyddion	Error! Bookmark not defined.
Cyhoeddiadau	Error! Bookmark not defined.
Ffurflenni ar Bapur a Deunyddiau Amrywiol	17

Gwefannau	Error! Bookmark not defined.
Hysbysiadau i'r Wasg	18
Hysebysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysiadau Recriwtio Staff	18
Recriwtio	Error! Bookmark not defined.
Ymgyrchoedd yn y Wasg	19
Deunyddiau a Ddarperir i'r Cyhoedd gan Sefydliadau Eraill	19
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	20
Gweithio mewn Partneriaeth	20
Rhan 6: Gweithredu a Monitro'r Cynllun	21
Staffio	Error! Bookmark not defined.
Dysgu Cymraeg	21
Hyfforddiant Galwedigaethol	21
Gweithredu	Error! Bookmark not defined.
Deddf Rhyddid Gwybodaeth	22
Gwasanaethau a Ddarperir ar ran yr Adran gan Drydydd Partïon	23
Monitro	Error! Bookmark not defined.
Targedau	24
Cyhoeddi Gwybodaeth	24
Adolygu a Diwygio'r Cynllun	24
Cwynion ac Argymhellion ar gyfer Gwella	25
Cyhoeddusrwydd	Error! Bookmark not defined.
Atodiad A: Prif Dargedau ar gyfer Cyflawni'r Cynllun	26

Rhan 1: Cyflwyniad

Pwrpas

1.1 Mae'r Swyddfa Gartref yn chwarae rhan hanfodol yn niogelwch a ffyniant economaidd y Deyrnas Unedig.

Cyfrifoldebau

1.2 Rydym yn gyfrifol am:

- weithio ar y problemau a achosir gan ddefnydd anghyfreithlon o gyffuriau;
- llunio'r strategaeth, polisi ac amodau trwyddedu alcohol;
- amddiffyn y Deyrnas Unedig rhag y bygythiad o derfysgaeth;
- lleihau ac atal trosedd, a sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a chymunedau (Cymru a Lloegr yn unig);
- diogelu ffin y DU a rheoli mudo;
- ystyried ceisiadau i ddod i mewn i'r DU ac aros yno;
- cyflwyno pasbortau a fisas;
- cefnogi heddlua gweladwy, cyfrifol ac atebol drwy rymuso'r cyhoedd a rhyddhau amser yr heddlu i daclo troseddau (Cymru a Lloegr yn unig); ac
- atal ac achub rhag tân (Lloegr yn unig)

Blaenoriaethau

1.3 Ein blaenoriaethau yw:

- Lleihau trosedd a'r niwed y mae'n ei achosi, gan gynnwys seiber-drosedd a throseddau difrifol ac wedi'i drefnu
- Rheoli argyfyngau sifil o fewn cylch gwaith y Swyddfa Gartref
- Amddiffyn pobl a chymunedau agored i niwed
- Lleihau terfysgaeth
- Rheoli mudo

- Darparu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf a chyfrannu at ffyniant
- Manteisio i'r eithaf ar y buddion yn deillio o'r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd

Pwy ydym ni

1.4 Adran weinidogol yw'r Swyddfa Gartref, sydd ar hyn o bryd yn cael ei chefnogi gan asiantaethau a chyrff cyhoeddus. Ceir manylion pellach ar:

<https://www.gov.uk/government/organisations#home-office>

1.5 Bydd pob un o asiantaethau a chyrff cyhoeddus y Swyddfa Gartref yn dilyn ei chynllun iaith, oni bai bod ganddynt Gynllun Iaith Gymraeg eu hunain.

1.6 Dyma [restr](#) o asiantaethau a chyrff cyhoeddus y Swyddfa Gartref y mae'r cynllun hwn yn berthnasol iddynt.

1.7 Bydd y Swyddfa Gartref yn sicrhau bod yr holl asiantaethau a chyrff cyhoeddus sy'n weddill yn gweithio'n unol â'r cynllun hwn.

1.8 Bydd y Swyddfa Gartref yn annog ei hasiantaethau a chyrff cyhoeddus i gydweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg os ydyn nhw'n paratoi eu cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain.

Ymholiadau

1.9 Y gyfarwyddiaeth berthnasol fydd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun hwn yn y Swyddfa Gartref; dylid anfon ymholiadau cyffredinol am y cynllun ac ymholiadau ynghylch meysydd penodol i: Cymraeg@HomeOffice.gov.uk

Rhan 2: Cynnwys y Cynllun

2.1 Mae'r cynllun hwn yn nodi'r mesurau y bydd y Swyddfa Gartref yn eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng Cymraeg a Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid yng Nghymru.

2.2 Mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo i'r polisiau a'r safonau a nodwyd yn y cynllun hwn, a bydd yn cynllunio pob gwasanaeth newydd gan gyfeirio at ymrwymadau'r cynllun.

2.3 Man cychwyn y Swyddfa Gartref, wrth gydnabod cydraddoldeb rhwng Cymraeg a Saesneg, yw bod croeso i gwsmeriaid yng Nghymru sy'n dymuno cynnal busnes yn Gymraeg, boed hynny mewn gohebiaeth, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, wneud hynny'n rhwydd. Mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r un safon yn y Gymraeg a Saesneg.

2.4 Bydd Cynllun y Swyddfa Gartref:

- yn cydymffurfio â chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg, ac yn cael ei adolygu er mwyn cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol;
- yn cael ei adlewyrchu yn ei Chynlluniau Busnes a Chorfforaethol;
- yn helpu i gyflawni gwasanaeth mewn ffordd bositif ac effeithiol i bobl Cymru;
- yn cael ei rannu gyda staff a'r cyhoedd; ac
- yn cael cefnogaeth lawn Pwyllgor Gweithredol y Swyddfa Gartref.

Rhan 3: Cynllunio a Chyflawni Gwasanaethau

Polisiâu a Mentrau Newydd

3.1 Bydd polisiâu, mentrau a gwasanaethau'r Swyddfa Gartref yn cael eu cynnal yn unol â'r polisi hwn. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Bydd dogfennau ymgynghori sy'n berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg a Saesneg, ac yn ystyried yr effaith bosibl ar y Gymraeg o ran y polisi sy'n destun yr ymgynghoriad. Ceir eglurhad os na fydd hyn yn bosibl.

3.2 Bydd canllawiau a roddir i uwch reolwyr yn ategu perthnasedd y cynllun i'r broses o lunio polisiâu, a'r pwysigrwydd, yn ystod y cam cynllunio, o ystyried yr angen i gynnig a darparu gwasanaeth yn Gymraeg.

3.3 Bydd y Swyddfa Gartref yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw o ran unrhyw gynigion a fydd yn effeithio ar y cynllun hwn, neu a fydd yn effeithio ar gynlluniau sefydliadau eraill.

3.4 Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd, bydd y Swyddfa Gartref:

- yn sicrhau bod canlyniadau ieithyddol wedi'u hasesu, er enghraifft a fydd unrhyw bolisi neu wasanaeth newydd yn cael effaith anghyfrannol ar siaradwyr Cymraeg;
- yn sicrhau bod cynnwys polisiâu a mentrau o'r fath yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, ac nad yw'n ei danseilio nac ychwaith yn tanseilio cynlluniau sefydliadau eraill;
- yn sicrhau bod y mesurau sy'n rhan o'r cynllun hwn yn berthnasol i bolisiâu a mentrau newydd pan fyddant yn cael eu gweithredu; ac
- yn sicrhau bod yr holl ganlyniadau ieithyddol wedi'u diffinio, eu mesur a'u gwerthuso yn rhan o feini prawf gwerthuso cyffredinol y Swyddfa Gartref ar gyfer polisiâu a mentrau newydd.

3.5 Pan fydd polisiâu a mentrau newydd sy'n debygol o gael effaith ar aelodau'r cyhoedd (gan gynnwys y cyhoedd yng Nghymru) yn cael eu cyflwyno, bydd y Swyddfa Gartref yn hwyluso a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg lle bo'n berthnasol. Os credir bod polisiâu, codau ymddygiad, canllawiau ac ati yn groes i ddarpariaethau Deddf y Gymraeg a'r cynllun hwn, byddant yn cael eu hadolygu cyn gynted â phosibl.

Darpariaeth Gwasanaethau

3.6 Bydd gwasanaethau cyhoeddus y Swyddfa Gartref yng Nghymru yn cael eu darparu yn unol â chynnwys y cynllun hwn, sy'n disgrifio sut fydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio wrth gyflawni cyfrifoldebau'r Swyddfa Gartref, fel y'i nodir ym mharagraff 1.2.

3.7 Mae'r cynllun yn berthnasol i holl gyfarwyddiaethau'r Swyddfa Gartref - ynghyd ag unrhyw sefydliad arall a allai fod yn gyfrifol am waith y cyfarwyddiaethau hynny (boed hynny o ganlyniad i brofion marchnad, allgontractio, adroddiadau annibynnol, neu unrhyw beth a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref) - ac yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg a chanllawiau a chyingor Comisiynydd y Gymraeg. Bydd y Swyddfa Gartref yn annog pob sefydliad arall y mae'n gweithio gyda nhw i ystyried y Gymraeg lle bo'n briodol.

3.8 Bydd y Swyddfa Gartref yn hyrwyddo gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru ac yn gwaredu unrhyw rwystrau a allai atal trydydd partïon rhag defnyddio'r Gymraeg. Mae defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru yn ffactor pwysig o ran cyfle cyfartal ac amrywiaeth, ac yn hynny o beth, bydd yn rhan hanfodol o agenda cyfle cyfartal y Swyddfa Gartref.

3.9 Bydd deunyddiau a ddarperir gan y Swyddfa Gartref i'r heddlu neu i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg neu'n ddwyieithog, yn unol â'r dull a nodir isod.

3.10 Lle bo angen i'r cyhoedd yng Nghymru ddefnyddio ffurflenni penodol, rheolau neu weithdrefnau, bydd y rhain ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, yn unol â'r ymrwymadau a nodir yn y cynllun hwn.

3.11 Bydd systemau a phecynnau cyfrifiadurol sy'n cael eu caffael gan y Swyddfa Gartref neu mewn partneriaeth â hi - ar gyfer y Swyddfa ei hun neu sefydliadau cysylltiedig - yn darparu allbynnau dwyieithog at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru. Bydd hefyd yn gallu (yn amodol ar y ddeddfwriaeth diogelu data sydd ar waith) cofnodi a throsglwyddo gwybodaeth ar ddewis iaith unigolyn neu sefydliad. Bydd hyn ar waith o gam cynllunio ac asesu unrhyw system neu becyn newydd.

3.12 Lle bo canllawiau'n cael eu cyflwyno i drydydd partïon ar weithdrefnau, byddant yn adlewyrchu'r angen i gynnig gwasanaeth iaith Gymraeg yng Nghymru. Bydd sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr yn cael eu hystyried wrth benodi i fyrddau, paneli neu dribiwnlysoedd.

Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi

3.13 Pan fydd Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) yn archwilio lluoedd yr Heddlu yng Nghymru, rhoddir ystyriaeth ddyladwy i Gynllun Iaith Gymraeg y Swyddfa Gartref (gan gynnwys darparu archwilwyr sy'n siarad Cymraeg pan fydd unrhyw lu'r Heddlu yng Nghymru yn gofyn am hynny, a darparu

gwasanaethau cyfieithu os nad yw hyn ar gael). Mae cynlluniau gwasanaeth neu fframweithiau adrodd (megis gwerth gorau) yn cynnwys mesurau ynghylch defnydd o'r Gymraeg pan fydd yn ymwneud â darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn ffrwd cydraddoldeb ac amrywiaeth yng Nghymru, yn yr un modd ag elfennau eraill ar yr agenda Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi (HMPO)

3.14 Mae'r prif gyswllt â'r cyhoedd dros y ffôn ac ar ffurf y ffurflen gais am basbort. Yn y ddau achos, bydd dewis iaith yn cael ei gynnig, a bydd Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi yn sicrhau y gall cwsmeriaid sy'n byw yng Nghymru dderbyn gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r mesurau a nodir yn y Cynllun hwn yn cyfleu sut fydd hyn yn cael ei gyflawni.

3.15 Mae HMPO wedi datblygu systemau TGCh sy'n galluogi ymgeiswyr i gyflwyno cais am basbort yn Gymraeg ar-lein.

Y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol

3.16 Mae'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr yn rhan o Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi. Bydd cwsmeriaid sy'n cysylltu â'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol dros y ffôn, dros e-bost neu drwy'r post yn cael cynnig dewis iaith ym mhob achos, a bydd y rheiny sy'n byw yng Nghymru yn gallu derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg.

3.17 Bydd y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn gweithio ag awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau bod gwasanaethau cofrestru a ddarperir gan yr awdurdodau hynny ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg.

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

3.18 Bydd cwsmeriaid sy'n cysylltu â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) dros y ffôn, dros e-bost neu drwy'r post yn cael cynnig dewis iaith ymhob achos, a bydd y rheiny sy'n byw yng Nghymru yn gallu derbyn gwasanaethau yn y Gymraeg. Mae gan DBS linell Gymraeg benodol ar gyfer cwsmeriaid Cymraeg. Mae DBS yn cynnig ffurflenni cais Cymraeg i gwsmeriaid ar gais.

Safon y Gwasanaeth

3.19 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o'r un safon, ac yn cael eu darparu o fewn yr un terfyn amser, lle bo'n bosibl. Bydd y Swyddfa Gartref yn gwneud hyn yn glir pan fydd yn cyflwyno datganiadau ar ansawdd y gwasanaeth a chyfle cyfartal.

3.20 Mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd hyn yn cael ei nodi yn y Cynlluniau Busnes a Chorfforaethol. Bydd y gweithrediad yn cael ei fonitro'n agos.

3.21 Bydd Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi yn cynnal arolygon cwsmeriaid rheolaidd, ar gais; bydd cwsmeriaid sy'n rhan o arolygon yng Nghymru yn derbyn holiadur dwyieithog i'w lenwi. Os nad yw fersiwn ddwyieithog yn bosibl, bydd yr arolygon yn cael eu hanfon yn y ddwy iaith, a bydd gan gwsmeriaid yr opsiwn i lenwi'r arolwg yn Gymraeg neu'n Saesneg.

3.22 Bydd taflen(ni) gwybodaeth Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi, sy'n cael ei hanfon gyda'r pasbort i gwsmeriaid yng Nghymru, yn ddwyieithog neu yn yr un iaith ag iaith y ffurflen gais.

3.23 Bydd ceisiadau Cymraeg am basbort yn cael eu prosesu gyda'r un terfyn amser â cheisiadau sy'n cael eu cyflwyno'n Saesneg.

3.24 Ni ellir cynnwys cofnodion troseddol a gofnodir ar gofnodion canolog megis Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) yn Gymraeg ond yn Saesneg yn unig. Mae hyn oherwydd gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) o dan Ran V Deddf yr Heddlu 1997."

Dyfarnu Grantiau a Benthyciadau

3.25 Pan fydd y Swyddfa Gartref yn dyfarnu grantiau a benthyciadau ar gyfer gweithgareddau i'w cynnal yng Nghymru, bydd yn cynnwys amodau ynghylch defnydd o'r Gymraeg. Wrth wneud hyn, bydd y Swyddfa Gartref yn dilyn canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar ddyfarnu grantiau a benthyciadau. Mae hyn i'w weld dan 'Gwneud Cais am Contractau a Grantiau' ar y ddolen [hon](#).

Rhan 4: Delio â'r Cyhoedd Cymraeg eu Hiaith

Gohebiaeth

4.1 Bydd aelodau'r cyhoedd sy'n delio â'r Swyddfa Gartref yn gallu gwneud hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae croeso iddynt wneud yn yr iaith o'u dewis. Os bydd aelod o'r cyhoedd yng Nghymru yn ysgrifennu at yr Adran yn Gymraeg, bydd yr Adran yn:

- ymateb yn Gymraeg; ac
- yn ymateb o fewn yr un dyddiad targed ymateb â'r iaith Saesneg.

4.2 Pan fydd yr Adran yn anfon gohebiaeth at unigolyn, grŵp neu sefydliad, bydd yn cael ei hanfon yn Gymraeg pan fydd yn hysbys mai'r dewis iaith yw Cymraeg.

4.3 Bydd yr holl ohebiaeth ddilynol yn Gymraeg, oni bai bod yr unigolyn neu'r sefydliad perthnasol yn nodi'n wahanol.

4.4 Yn amodol ar y system sgorio a nodir isod, pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyron i lawer o dderbynyddion yng Nghymru, bydd yn cael ei hanfon yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod yr hoffai bob un dderbyn yr ohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg yn unig. Byddwn yn defnyddio system sgorio, fel y'i cytunwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg, i nodi'n wrthrychol pan ddylid cyhoeddi gohebiaeth safonol neu gylchlythyron yn ddwyieithog, neu ar ffurf dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, os yw'r ohebiaeth yn dechnegol neu'n hir iawn). Bydd copi o'r canllawiau perthnasol i staff ar gael ar fewnwyd y Swyddfa Gartref a thrwy e-bostio:

Cymraeg@HomeOffice.gov.uk

4.5 Os oes angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg unrhyw ohebiaeth ar wahân, fel arfer byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd. Bydd amgaeadau a anfonir gyda llythyron dwyieithog yn ddwyieithog, pan fo hynny ar gael. Bydd amgaeadau a anfonir gyda llythyron Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fo hynny ar gael. Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth dros e-bost yn ogystal â gohebiaeth ar bapur. Bydd copïau papur yr holl ohebiaeth Gymraeg a anfonir gennym wedi'u llofnodi.

4.6 Bydd y Swyddfa Gartref yn rhannu canllawiau a hyfforddiant priodol ar y gweithdrefnau cywir i'n staff, gan nodi'r safonau sy'n ofynnol wrth ddelio â gohebiaeth yn y Gymraeg.

Cyfathrebu Dros y Ffôn

4.7 Bydd y Swyddfa Gartref yn darparu gwasanaeth iaith Gymraeg ar gyfer llinellau cymorth dros y ffôn, canolfannau ffonio neu gyfleusterau tebyg sy'n cynnig gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth ac sy'n berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru.

4.8 Bydd pobl o Gymru sy'n ffonio ag ymholiadau pasbort yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog, ac yn cael yr opsiwn i siarad â rhywun yn Gymraeg neu'n Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth ar yr un rhif ffôn.

4.9 Mae gan y DBS rif ffôn perthnasol i gwsmeriaid o Gymru sy'n dymuno siarad Cymraeg. Bydd cwsmeriaid sy'n defnyddio'r rhif ffôn hwn yn cael ymateb uniongyrchol gan aelod staff sy'n siarad Cymraeg. Os na fydd aelod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, ac os nad yw'r un sy'n ffonio'n awyddus i barhau yn Saesneg, bydd y DBS yn trefnu galwad yn ôl.

Delio â Galwyr Personol

4.10 Bydd y Swyddfa Gartref yn rhoi hyfforddiant i staff yng Nghymru, sydd â chyswllt â'r cyhoedd, ar weithdrefnau ar sut i ddelio'n briodol ag ymholiadau gan gwsmeriaid sy'n dymuno datrys eu problem yn Gymraeg.

4.11 Bydd Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi yn ceisio cynyddu nifer y staff sy'n gallu gweithio yn Gymraeg drwy gynnig cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg a recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg lle bo'n briodol.

4.12 Bydd y Swyddfa Basbort yn cynnig gwasanaeth iaith Gymraeg ym mhob swyddfa gyfweld yng Nghymru. Bydd hefyd yn sicrhau bod unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno cael cyswllt wyneb yn wyneb yn gallu gwneud hynny yn Gymraeg naill ai drwy siarad ag aelod staff Cymraeg ei iaith, neu gyfieithydd os nad oes aelod staff priodol ar gael. Bydd poster yn cael ei arddangos yn hysbysebu'r gwasanaeth hwn.

4.13 Mae rheolaethau Tollau Rheoli Ffiniau a rheolaethau Mudo Rheoli Ffiniau ar waith ym maes awyr Caerdydd a phorthladdoedd Cymru, megis Doc Penfro, Abergwaun a Chaerdydd; sydd oll yn wynebu'r cyhoedd. Gall aelodau'r cyhoedd sy'n cyrraedd y manau hyn ac sy'n dymuno siarad Cymraeg wneud hynny, ac mae croeso iddynt wneud naill ai drwy siarad ag aelod staff Cymraeg ei iaith neu gyfieithydd ar y pryd os nad oes aelod staff ar gael.

4.14 Bydd staff ar y ddesg gyhoeddus yn Swyddfa Basbort Casnewydd, staff Cydymffurfio a Gorfodi Mudo yng Nghaerdydd a staff Rheoli Ffiniau ym meysydd awyr a phorthladdoedd Cymru yn gwisgo bathodynau adnabod dwyieithog.

Cyfarfodydd, Ymchwiliadau neu Wrandawiadau Cyhoeddus

4.15 Nid yw'r Swyddfa Gartref yn cynnal cyfarfodydd, ymchwiliadau neu wrandawiadau cyhoeddus yn aml. Fodd bynnag, os cynhelir cyfarfodydd o'r fath, a hynny yng Nghymru,

bydd gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gael; oni bai ein bod wedi dod i'r casgliad bod pob cyfranogwr yn debygol o ddefnyddio'r un iaith. Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus o'r fath yn ddwyieithog, ac naill ai'n nodi y bydd cyfleusterau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gael, neu'n gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i'r Adran ymlaen llaw ym mha iaith yr hoffent siarad. Bydd papurau a gwybodaeth ategol ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ar gael yn ddwyieithog, a'r holl adroddiadau a phapurau a rennir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus ar gael yn y ddwy iaith.

Ymdrin â'r Cyhoedd yng Nghymru fel arall

4.16 Pan fydd yr Adran yn cynnal arolygon cyhoeddus ac ymgynghoriadau, bydd yr holl gyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

4.17 Bydd Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi yn archwilio opsiynau i ddarparu yn Gymraeg wrth gynnal ei holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a bydd yn gweithio ar sicrhau bod prosesau â chymorth ar waith i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn effeithiol.

Rhan 5: Wyneb Cyhoeddus yr Adran

Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd, Arddangosfeydd a Hysbysebu

5.1 Bydd yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunyddiau hysbysebu a ddefnyddir yng Nghymru (er mwyn targedu cyhoedd Cymru) yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân fel sy'n briodol i'r gynulleidfa. Os oes angen cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yr un peth o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd lle bo'n bosibl ac yn hygyrch fel ei gilydd.

Hunaniaeth Gorfforaethol

5.2 Bydd y Swyddfa Gartref yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd enw, manylion cyswllt, logo, arwyddeiriau a gwybodaeth safonol arall am yr Adran yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ddeunyddiau sy'n nodi'n hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau ysgrifennu adrannol a deunyddiau megis cardiau busnes, bathodynau adnabod, pasys, tocynnau, cardiau diolch, slipiau canmol, gwahoddiadau a cherbydau.

5.3 Bydd gwisgoedd a logos â brand ar gyfer staff yng Nghymru yn ddwyieithog. Mae hyn yn dibynnu ar faint y ffont. Os credir bod y brandio'n rhy fach, ni fydd angen brandio dwyieithog, er enghraifft ar gapiau pig.

Teitlau

5.4 Pan fydd dogfennau'n cael eu cyflwyno yn Gymraeg, bydd yr enw 'Swyddfa Gartref' ac enw'r gyfarwyddiaeth neu'r adran sy'n cyflwyno'r ddogfen i'w weld yn Gymraeg.

Arwyddion

5.5 Bydd yr holl arwyddion mewnol ac allanol mewn manau cyhoeddus yn unrhyw swyddfa yng Nghymru y mae'r Swyddfa Gartref yn uniongyrchol gyfrifol amdani naill ai'n ddwyieithog neu ar ffurf fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os defnyddir arwyddion ar wahân, byddant yr un peth o ran maint, fformat, amlygrwydd ac ansawdd.

5.6 Bydd pob arwydd newydd yn ddwyieithog. Bydd arwyddion dwyieithog yn disodli arwyddion presennol pan fo angen.

Cyhoeddiadau

5.7 Byddwn yn cyhoeddi deunyddiau sydd ar gael i'r cyhoedd naill ai'n ddwyieithog (gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen) neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

5.8 Os bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd, ac fel arfer byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yn hygyrch fel ei gilydd. Os bydd amgylchiadau'n golygu nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn egluro'r rheswm am hyn. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

5.9 Byddwn yn defnyddio'r system sgorio i nodi'n wrthrychol pan ddylid cyhoeddi deunyddiau nad ydynt yn ddogfennau cyhoeddus, megis llythyrau i Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, ar ffurf fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

5.10 Mae holl ddeunydd y Swyddfa Gartref sydd ar gael yn Gymraeg i'w weld ar adran cyhoeddiadau'r Swyddfa Gartref ar wefan gov.uk (www.gov.uk/government/publications). Hefyd, bydd adroddiadau archwilio sefydliadau yng Nghymru a gyflwynir gan Arolygiaeth Cwnstablaieth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

5.11 Bydd y system sgorio a nodir uchod yn berthnasol i'r holl gyhoeddiadau newydd, ac ail-gyhoeddiadau a gyflwynir ar ôl cymeradwyo'r cynllun - yn ogystal â'r holl gyhoeddiadau presennol sydd ar fin cael eu hadolygu, eu hail-gyflwyno neu eu hail-argraffu. Gall staff gael cip ar ganllawiau ysgrifenedig ar ddyluniad a chyhoeddi deunyddiau dwyieithog drwy e-bostio design102@justice.gov.uk. Os codir tâl am gyhoeddiadau, ni fydd pris testun dwyieithog yn uwch na phris fersiwn Saesneg; yn yr un modd, os caiff dogfennau eu cyhoeddi ar wahân, ni fydd pris y fersiwn Gymraeg yn uwch na'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos hynny, os yw'r deunydd yn ddogfen wedi'i hargraffu, bydd y ddwy fersiwn yr un mor hygyrch yng Nghymru, a'r bwriad fydd eu cyflwyno nhw ar yr un pryd, a'u cyflwyno gyda'i gilydd. Os nad yw'r amgylchiadau'n caniatáu, byddwn yn rhoi rheswm clir am hynny.

Ffurflenni ar Bapur a Deunyddiau Amrywiol

5.12 Os bydd unrhyw fath o ddeunydd yn cael ei argraffu gan Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi (gan gynnwys eitemau amrywiol megis sticeri, cardiau ac ati), byddant yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog neu yn y ddwy iaith; bydd deunyddiau dwyieithog o'r fath yn cael eu rhannu'n awtomataidd â'r cyhoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw rhai eitemau'n cael eu defnyddio'n aml, a chânt eu cyhoeddi ar systemau cenedlaethol. Mewn achosion o'r fath, ni gynigir y dylid cyhoeddi fersiynau Cymraeg - mae hyn yn cynnwys eitemau megis derbynebaw (sydd ond yn cael eu cyflwyno i alwyr personol) ac anfonebau.

5.13 Er mwyn sicrhau nad yw cwsmeriaid yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar ffurflenni a thafleuni dwyieithog/Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi yn cynnal gweithdrefnau i sicrhau eu bod wedi'u harddangos yn Swyddfa Basbort Casnewydd, a bod digon ohonynt ar gael. Os bydd fersiynau dwyieithog o ddeunyddiau'n bodoli, dim ond y fersiynau hyn fydd yn cael eu rhannu yn/i Gymru. Os oes fersiynau Cymraeg ar wahân ar gael, byddant ar gael yn yr un modd â'r fersiwn Saesneg.

5.14 Bydd y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn sicrhau bod ffurflenni cais ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd unrhyw ddeunyddiau eglurhaol cysylltiedig hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd yr holl ffurflenni a deunyddiau eglurhaol ar gael i'w lawrlwytho o wefan gov.uk: (www.gov.uk/government/publications).

5.15 Bydd y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol yng Nghymru i sicrhau bod gan wasanaethau cofrestru lleol ddigon o ffurflenni a thafleuni dwyieithog/Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Gwefannau

5.16 Dyma ddolen i dudalen we'r Swyddfa Gartref: www.gov.uk/homeoffice. Mae cynnwys ym mhrif ran .gov.uk yn cael ei ysgrifennu a'i gyhoeddi gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS). Mae'r cynnwys hwn ar gyfer y cyhoedd, ac yn rhannu gwybodaeth am y gwasanaethau a chynlluniau'r Llywodraeth a ddefnyddir amlaf.

5.17 Bydd y Swyddfa Gartref yn sicrhau ein bod yn darparu fersiynau Cymraeg o'n tudalennau gwe sy'n berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr i GDS, ac yn gweithio gyda nhw i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael.

Hysbysiadau i'r Wasg

5.18 Bydd datganiadau i'r wasg a rennir gyda'r wasg yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg. Os nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn egluro'r rheswm.

Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysiadau Recriwtio Staff

5.19 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a rennir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mewn cyhoeddiadau cyfrwng Gymraeg, bydd yr hysbysiadau'n ymddangos yn Gymraeg. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un peth o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd, waeth os ydyn nhw'n cael eu cyhoeddi fel un fersiwn ddwyieithog neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau

cyhoeddus a swyddogol gan Swyddfa Basbort Ei Fawrhydi ar ffurf fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ac yn cael eu harddangos gyda'i gilydd yn y wasg neu fel arall.

5.20 Os bydd y Swyddfa Gartref yn mynd i arddangosfa yng Nghymru fel cyflwynydd, bydd staff sy'n siarad Cymraeg ar gael a'r deunyddiau naill ai'n ddwyieithog neu'n Gymraeg ac yn Saesneg.

Recriwtio

5.21 Yn y cyfryngau cyfrwng Saesneg yng Nghymru, bydd swyddi Cymraeg-hanfodol yn cael eu hysbysebu yn Gymraeg, gyda disgrifiad bras yn Saesneg. Bydd hysbysiadau recriwtio a roddir mewn cyfnodolion cyfrwng Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) sydd ar gael ledled y DU yn cael eu cyhoeddi yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un Cymraeg-hanfodol. Yn yr achos hwn, bydd yr hysbysiad yn ddwyieithog, neu yn Gymraeg gyda disgrifiad bras yn Saesneg. Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff eraill a roddir yn rhywle arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

5.22 Os yw'r Swyddfa Gartref wedi nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn gymwys yn elfen ddymunol ar swydd benodol, ystyrir gallu ieithyddol yn yr un modd â chymwyseddau dymunol eraill. Os yw gallu ieithyddol yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, bydd hyn yn cael ei nodi mewn hysbysebion swydd perthnasol.

Ymgyrchoedd yn y Cyfryngau

5.23 Bydd deunyddiau ymgyrchoedd a grëir i'w defnyddio yn y cyfryngau ysgrifenedig neu ddarlledu, neu unrhyw ddeunydd aml-gyfrwng arall ar gyfer y cyhoedd, ar gael yn ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg i'w defnyddio yng Nghymru.

5.24 Os yw'r Swyddfa Gartref yn cynnal ymgyrchoedd sy'n annog aelodau'r cyhoedd i ffonio staff neu gontractwyr y Swyddfa Gartref, byddwn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gysylltu â ni dros y ffôn neu yn ysgrifenedig fel sy'n briodol.

Deunyddiau a Ddarperir i'r Cyhoedd neu Sefydliadau Eraill

5.25 Mae'r Swyddfa Gartref yn cydnabod y gallai argaeledd deunyddiau cyfrwng Cymraeg fod yn elfen bwysig ar allu asiantaethau eraill i gyflawni cydraddoldeb ieithyddol effeithiol o ran y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu. Bydd unedau perthnasol y Swyddfa Gartref yn cysylltu ag asiantaethau priodol yng Nghymru yn rheolaidd er mwyn pennu pa rai o'r eitemau maen nhw'n eu cynhyrchu sydd â'r effaith fwyaf ar eu gallu i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg: bydd y wybodaeth hon yn ffactor pwysig wrth flaenoriaethu'r rhaglen gyfieithu.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

5.26 Wrth ddatblygu ei strategaeth TG, bydd y Swyddfa Gartref yn rhoi'r egwyddor cydraddoldeb ieithyddol ar waith o ran ei holl fentrau i'r dyfodol. Bydd manylebau ar gyfer rhaglenni TG newydd neu wedi'u haddasu yn cynnwys cyfeiriad priodol at yr angen i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn unol â'r cynllun hwn. Wrth inni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh, byddwn yn ystyried dogfen gyngor Comisiynydd y Gymraeg: Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyriaethau'r Gymraeg. Mae'r ddogfen i'w gweld ar y ddolen [hon](#).

5.27 Os nad oes modd addasu rhaglenni/systemau TG presennol i hwyluso Cynllun Iaith Gymraeg y Swyddfa Gartref, neu wasanaethau cyfrwng Cymraeg eraill, bydd trefniadau dros dro yn cael eu rhoi ar waith i oresgyn unrhyw anawsterau.

Gweithio mewn Partneriaeth

5.28 Os yw'r Swyddfa Gartref yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth ffurfiol, bydd yn sicrhau bod unrhyw agweddau gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fydd y Swyddfa Gartref yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei harwain; bydd ei mewnbwn o ran y bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a bydd y Swyddfa Gartref yn annof partneriaid eraill i gydymffurfio hefyd.

5.29 Pan fydd y Swyddfa Gartref yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw consortiwm, bydd yn gweithredu'n unol â'r cynllun hwn.

5.30 Mae'r uchod yn cyfeirio at bartneriaethau ffurfiol yn unig, sy'n delio â'r gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru.

Rhan 6: Gweithredu a Monitro'r Cynllun

Staffio

6.1 Nod y mesurau isod yw cynyddu nifer y staff Cymraeg eu hiaith yn y Swyddfa Gartref a'i hasiantaethau, i sicrhau y gall barhau i gyflawni ei wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

6.2 Bydd y Swyddfa Gartref yn nodi'r swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Os yw cymhwysedd o'r fath yn berthnasol, nodir hyn yn yr hysbyseb swydd a bydd yn cael ei ymgorffori yn y fanyleb person. Byddwn yn annog siaradwyr Cymraeg i wneud cais drwy gynnwys datganiad mewn hysbysebion recriwtio priodol.

6.3 Bydd y Swyddfa Gartref yn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am recriwtio a hyfforddi staff yn ymwybodol o'r ymrwymadau hyn ac yn eu gweithredu.

6.4 Bydd strategaeth y Swyddfa Gartref i gynyddu nifer ei staff dwyieithog yn cynnwys:

- darparu cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg briodol i staff perthnasol;
- recriwtio siaradwyr Cymraeg i swyddi penodol lle mae'r iaith yn hanfodol mewn achos o swydd wag neu greu swydd newydd.

6.5 Ni fydd unrhyw aelod staff dan bwysau i hyfforddi yn y Gymraeg neu ddysgu'r iaith, a bydd yr holl staff yn cael eu penodi ar eu teilyngdod eu hunain, ac yn unol â pholisïau cyfle cyfartal a deddfwriaeth cyflogaeth.

6.6 Er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau o ran cadw staff sy'n siarad Cymraeg, byddwn yn parhau i hysbysebu ac annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg ar gyfer swyddi perthnasol.

Dysgu Cymraeg

6.7 Mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo'n llwyr i annog a chefnogi aelodau staff sydd eisieu dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau yn y Gymraeg. Rhoddir cymorth ariannol ac arall i staff sy'n mynychu cyrsiau allanol perthnasol. Bydd y Swyddfa Gartref yn defnyddio Cynlluniau Datblygu Personol pob aelod staff er mwyn annog staff i ddysgu Cymraeg. Bydd gohebiaeth yn annog yr hyfforddiant yn cael ei rhannu yn rheolaidd, a bydd hyn wedi'i nodi yn y cynllun cyfathrebu.

Hyfforddiant Galwedigaethol

6.8 Bydd gofynion hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hasesu a'u darparu fel bo'n briodol.

Gweithredu

6.9 Cyflwynir y cynllun gyda chefnogaeth lawn Gweinidogion y Swyddfa Gartref a'r Pwyllgor Rheoli Gweithredol. Bydd y cynllun yn cael ei gydlynw a'i fonitro gan gydlynwdd y cynllun, sy'n gweithio yn Nhîm Cymru y Swyddfa Gartref.

6.10 Bydd pob Cyfarwyddwr a Phenaethiaid Unedau'n anfon canllawiau ar weithrediad y cynllun ac yn gyfrifol am ei weithrediad a'i swyddogaeth yn eu meysydd perthnasol. Bydd hyn hefyd yn cael ei hyrwyddo gan Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Swyddfa Gartref.

6.11 Bydd cydlynwdd Cynllun Iaith Gymraeg y Swyddfa Gartref yn paratoi ac yn diweddarw'n barhaus y cynllun gweithredu a fydd yn cael ei gytuno gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd yn nodi sut fydd yn sicrhau y bydd yn gweithredu'n unol â'r cynllun hwn. Bydd y cynllun gweithredu'n dod i rym ar yr un dyddiad â'r cynllun newydd, neu cyn gynted ag sy'n bosibl wedi hynny. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac yn adrodd ar gynnydd yn erbyn pob targed. Nod cyffredinol y cynllun gweithredu fydd sicrhau bod yr ymrwymadau a nodir yn y cynllun hwn yn cael eu cyflawni cyn gynted ag sy'n bosibl. Rhestrir y prif dargedau o ran cyflawni'r cynllun yn **Atodiad A**. Bydd y cynllun yn cael ei rannu gyda'n staff a'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau'r Adran ar wefan gov.uk.

6.12 Bydd cyfarwyddiadau desg, neu ganllawiau tebyg, yn cael eu datblygu ar gyfer staff i sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau a nodir yn y cynllun hwn. Bydd sesiynau briffio a hyfforddiant ar gyfer staff yn cael eu trefnu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun - ac yn egluro sut fydd yn effeithio ar eu gwaith bob dydd. Bydd pob aelod staff yng Nghymru yn derbyn gwybodaeth ar y cynllun iaith Gymraeg yn ystod eu cyfnod ymsefydlu.

6.13 Bydd unrhyw gyfieithydd neu gyfieithydd ar y pryd a ddefnyddir gan y Swyddfa Gartref yn gymwys ac yn gallu darparu gwasanaeth o safon a chost-effeithiol. Byddwn yn disgwyl i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad tebyg.

6.14 Bydd unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru nad yw wedi'i grybwyll yn benodol gan y cynllun hwn yn digwydd mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth

6.15 Bydd yr Adran yn gweithredu'n unol â chyngor Comisiynydd y Gymraeg ar Ddeddf y Gymraeg a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Pan fydd yr Adran yn rhyddhau gwybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bydd yn cael ei chyfieithu i ddewis iaith yr ymgeisydd os nad yw'r nifer geiriau i'w cyfieithu'n peri rhwystr ariannol.

Gwasanaethau a Ddarperir ar ran yr Adran gan Drydydd Partïon

6.16 Bydd y Swyddfa Gartref yn sicrhau bod unrhyw drefniadau a wneir gyda thrydydd partïon sy'n berthnasol i ddarpariaeth gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r cynllun. Bydd hyn yn cynnwys contractio ac is-gontractio gwasanaethau.

6.17 Pryd bynnag y bydd tendrau'n cael eu gwahodd er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, bydd y Swyddfa Gartref yn nodi gofynion o ran defnydd o'r Gymraeg. Bydd rheolwyr busnes yn monitro'r gwasanaeth a ddarperir gan y contractwr llwyddiannus ac yn sicrhau adroddiadau perfformiad rheolaidd. Bydd staff sy'n ymdrin â chontractau'n cael gwybod am y gofynion hyn.

Monitro

6.18 Bydd yr Adran yn monitro cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodir yn y cynllun gweithredu a gytunwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Bydd adroddiad ar y cynnydd hwnnw'n cael ei anfon at yr Ysgrifennydd Parhaol. Bydd y gweithdrefnau monitro a chofnodi presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd wrth gyflawni'r cynllun, fel sy'n briodol. Bydd yr Adran yn adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg ar gynnydd y cynllun bob blwyddyn. Defnyddir gweithdrefn hunan-asesu i fonitro cynnydd, i'w cytuno gyda'r Comisiynydd.

6.19 Bydd yr elfennau canlynol ar y cynllun yn cael eu monitro i sicrhau darpariaeth gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg:

- blaengynllunio a chaffael;
- amseroedd ymateb ar bob agwedd ar ddarpariaeth ac effeithiolrwydd y gwasanaethau;
- hunaniaeth gorfforaethol, cyhoeddiadau dwyieithog, ffurflenni, cyhoeddiadau, arwyddion, hysbysiadau ac ati;
- gweithredu mesurau staffio a hyfforddiant;
- darparu a gweinyddu gwasanaethau partneriaid a chontractwyr yr asiantau;
- perfformiad o ran gweithredu'r mesurau a nodir yn yr amserlen;
- amlygrwydd a natur y cwynion ynghylch ein Cynllun Iaith Gymraeg;
- gweithredu trefniadau i gynnig gwasanaethau Swyddfa Basbortau Ei Fawrhydi yn Gymraeg a'u heffeithiolrwydd; ac
- effeithiolrwydd Swyddfa Basbortau Ei Fawrhydi o ran annog a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ymysg partïon eraill;

- monitro gwasanaethau cwsmer gan gynnwys siopwyr cudd ac arolygon cwsmeriaid.

Targedau

6.20 Bydd y Swyddfa Gartref yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y cynllun hwn ac ystyried unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r cynllun er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb ymhellach rhwng y Gymraeg a Saesneg, ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg. Os na fodlonir safonau a thargedau a gyhoeddwyd, bydd y Swyddfa Gartref yn egluro i'r Comisiynydd ac yn disgrifio'r mesurau sydd ar waith i wneud yn iawn am y sefyllfa.

6.21 Bydd adroddiad ar berfformiad yn erbyn yr ymrwymadau yn y cynllun hwn a'r ymrwymadau sydd wedi'u crynhoi yn yr atodlen yn cael eu cyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg bob blwyddyn. Yna, bydd adroddiad ar ffurf y cytunwyd arno yn cael ei gyhoeddi ar ôl ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg.

6.22 Bydd y Swyddfa Gartref yn monitro nifer a natur yr ymholiadau, awgrymiadau a chwynion sy'n dod i law o ran y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd y canlyniadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddir ar berfformiad yn erbyn ymrwymadau'r cynllun.

6.23 Bydd y Swyddfa Gartref yn cynnal arolygon barn cyfnodol er mwyn profi barn defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith o ran ystod ac ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn yn Gymraeg. Cynhelir arolygon ar lafar drwy gyfrwng dewis iaith yr ymatebwr, a bydd holiaduron yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

Cyhoeddi Gwybodaeth

6.24 Bydd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Swyddfa Gartref yn cynnwys cyfeiriad penodol at y Cynllun a chynnydd gweithrediad y mesurau. Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

6.25 Os nad yw'r safonau a gyhoeddwyd yn cael eu bodloni, bydd yr adroddiad yn egluro pam, ac yn nodi pa gamau sydd wedi'u rhoi ar waith i ddatrys y broblem.

Adolygu a Diwygio'r Cynllun

6.26 Bydd y cynllun yn cael ei adolygu o fewn pedair blynedd o ban fydd yn dod i rym. Hefyd, mae'n bosib y bydd angen i'r Swyddfa Gartref adolygu'r cynllun o bryd i'w gilydd, neu gynnig diwygiadau i'r cynllun, oherwydd newidiadau i swyddogaethau adrannol, neu'r amgylchiadau o ran gweithrediad presennol swyddogaethau'r Swyddfa Gartref, neu unrhyw reswm arall. Ni fydd unrhyw newidiadau i'r cynllun yn cael eu rhoi ar waith heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

Cwynion ac Awgrymiadau ar gyfer Gwella

6.27 Bydd unedau unigol yn ymdrin â chwynion am agweddau penodol ar y cynllun yn unol â'u gweithdrefnau cwyno eu hunain.

6.28 Dylid anfon cwynion yn ymwneud â'r cynllun, neu awgrymiadau ar gyfer gwella, at yr uwch aelod staff sy'n gyfrifol am y cynllun i'r cyfeiriad canlynol: Pennaeth Tîm Cymru y Swyddfa Gartref, Adeiladau Cyffredinol, 31-33 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB. E-bost: Cymraeg@HomeOffice.gov.uk

6.29 Bydd y Swyddfa Gartref yn cydweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i ddatrys cwynion ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir dan adran 17 o'r Ddeddf Iaith Gymraeg.

Cyhoeddusrwydd

6.30 Bydd copïau o'r cynllun hwn ar gael gan Cymraeg@HomeOffice.gov.uk ac yn cael eu rhannu gyda phob parti â diddordeb yng Nghymru a Lloegr. Bydd manylion hefyd ar gael yn y ddwy iaith ar adran gyhoeddiadau tudalennau'r Swyddfa Gartref ar wefan gov.uk.

6.31 Bydd brawddeg safonol yn cael ei nodi ar bapurau/llythyrau i'w defnyddio yng Nghymru, yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.

6.32 Bydd crynodeb o'r cynllun yn cael ei nodi ym manau aros cyhoeddus pob eiddo'r Swyddfa Gartref yng Nghymru gan gynnwys Swyddfa Basbort Casnewydd ac mewn unrhyw ddigwyddiad yng Nghymru. Bydd yr wybodaeth a arddangosir yn cynnwys pa wasanaethau sydd ar gael, ac i ba raddau y gall y cyhoedd gysylltu â'r Swyddfa Gartref yn Gymraeg.

6.33 Bydd pob aelod staff yn y Swyddfa Gartref yn derbyn cylchlythyr yn nodi'r prif ddarpariaethau, a bydd gan bob aelod staff yn y Swyddfa Gartref fynediad at gopi o'r cynllun.

6.34 Rydym yn anfon gwaith cyfieithu'n allanol at gyfieithwyr cymwys. Mewn amgylchiadau lle bo oedi o ran derbyn y cyfieithiadau oherwydd capasiti'r darparwyr cyfieithu allanol, byddwn yn gwneud ein gorau i ddatrys a darparu deunyddiau wedi'u cyfieithu cyn gynted ag sy'n bosibl.

Atodiad A: Prif Dargedau ar gyfer Cyflawni'r Cynllun

MEINI PRAWF	TARGED	Dyddiad
Cyhoeddi'r Cynllun	Byddwn yn cyhoeddi'r cynllun newydd ar ein mewnwyd, ar wefan .gov.uk ac mewn unrhyw ddeunyddiau cyhoedduswydd perthnasol, gan gynnwys cyfathrebu mewnol gyda holl aelodau staff y Swyddfa Gartref, yn nodi'r prif ddarpariaethau a gwybodaeth ar sut i gael mynediad i'r cynllun.	Ebrill 2024
	Byddwn yn cynnal cyfres o sesiynau ymwybyddiaeth i staff ledled HMPO a meysydd busnes y Swyddfa Gartref i hyrwyddo gwybodaeth am y cynllun ymysg staff, ac i egluro sut bydd y cynllun yn effeithio ar eu gwaith bob dydd.	Parhaus
	Byddwn yn rhannu gwybodaeth wedi'i diweddarau ar y Cynllun Iaith Gymraeg i aelodau staff newydd, er mwyn eu defnyddio mewn cyfnodau ymsefydlu.	Parhaus
	Byddwn yn cysylltu â'n hasiantaethau i dynnu sylw at y cynllun a'u hatgoffa o'u cyfrifoldebau oddi tano.	Parhaus
	Os ceisir ymatebion i ymgynghoriad yng Nghymru, byddwn yn cynnig fersiwn iaith Gymraeg.	Parhaus
Ymgynghoriadau	Byddwn yn rhannu canllawiau newydd â staff yn rhoi gwybod iddynt am y cynllun a'r goblygiadau i'w gwaith ochr yn ochr â'r man cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau. Gellid defnyddio'r wybodaeth hon mewn sesiynau ymsefydlu staff newydd hefyd.	Mai 2024
Canllawiau	Byddwn yn rhoi canllawiau i uwch reolwyr yn ategu perthnasedd y cynllun i'r broses o lunio a gweithredu polisiâu, ochr yn ochr â sut bydd pob maes busnes yn gyfrifol am weithrediad y cynllun.	Parhaus
	Byddwn yn rhannu cyfarwyddiadau desg a chanllawiau wedi'u diweddarau i staff i sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o sut i weithredu mesurau'r cynllun.	Mai 2024

	Wrth inni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh newydd, byddwn yn ystyried dogfen ganllaw Comisiynydd y Gymraeg: <i>Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg</i> . Byddwn yn anelu at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol ym mhob gwasanaeth digidol i'r dyfodol. Bydd manylebau ar gyfer rhaglenni cyfrifiadurol newydd neu wedi'u haddasu i gynnwys cyfeiriad priodol at yr angen i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn unol â'r cynllun.	Parhaus
Gofynion y Gymraeg o ran datrysiadau digidol i'r dyfodol	Rydym yn parhau i gynyddu ein cynnwys cyfrwng Cymraeg ar ein gwefannau. Yn yr un modd ag adrannau eraill, byddwn yn ceisio datblygu trefniadau tebyg gyda GDS dros hyd y cynllun newydd.	Parhaus
	Ar wahân i'r cofnodion a gynhwysir ar y PNC, bydd y DBS yn ymdrechu i gynhyrchu tystysgrifau DBS yn ddwyieithog.	Parhaus
	Byddwn yn cynnal ymarfer mapio prosesau ar gyfer HMPO Casnewydd er mwyn mapio pa mor effeithiol yw'r gwaith o annog a hwyluso defnydd o'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.	Mai 2024
Archwilio Cydymffurfiaeth	Byddwn yn datblygu gweithdrefn hunan-asesu i werthuso a monitro cynnydd yn erbyn y cynllun.	Mai 2024
	Byddwn yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg i'w ystyried dan fframwaith rheoleiddio'r Comisiynydd.	Bob blwyddyn
	Rydym wedi pennu hyrwyddwyr mewn uwch swyddi meysydd allweddol y Swyddfa Gartref a HMPO i hyrwyddo'r cynllun ar lefel uchel.	Parhaus
Llywodraethiant	Hyrwyddo a hysbysebu argaeledd hyfforddiant iaith Gymraeg i staff sydd ar gael drwy 'Dysgu Cymraeg'	Parhaus
Hyfforddiant	Rhoi cyngor ar swyddi gwag lle rydym yn credu bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Bwriad hyn yw cynyddu nifer y staff sy'n gymwys ac yn ddigon hyderus i fynd ati i wneud eu gwaith yn Gymraeg pan fo angen.	Parhaus